

# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021-2022

---

## CYNNWYS:

1. Rhagair gan y Cadeirydd
2. Aelodaeth y Panel
3. Ein swyddogaeth
4. Adolygiad o'r Flwyddyn
5. Ein hamcanion ar gyfer 2022-2023
6. I gloi

## 1. Rhagair gan y Cadeirydd

Rwy'n falch iawn o gael cyflwyno pedwerydd Adroddiad Blynyddol Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Unwaith eto bu 2021-2022 yn flwyddyn brysur, gydag ailethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Mr Dafydd Llewelyn, datblygu Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer Dyfed-Powys a phenodi Prif Gwnstabl newydd, Richard Lewis.

Er gwaethaf y pandemig, mae fy nghydweithwyr a minnau wedi parhau i ddwyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i gyfrif am berfformiad ei swyddogaethau statudol a'i gefnogi i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i'r cyhoedd. Unwaith eto, mae'r Panel wedi edrych nid yn unig ar blismona yn Nyfed-Powys, ond hefyd ar gylich gorchwyl ehangach y Comisiynydd mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynir a'i ddefnydd o'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo.

Yn ystod y flwyddyn bu'n rhaid i'r Panel ddychwelyd i gyfarfodydd corfforol oherwydd gofynion deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae cyfarfodydd y Panel wedi parhau i gael eu gweddarlledu i hyrwyddo ymgysylltiad cyhoeddus.

Unwaith eto, rydym wedi edrych ar enghreifftiau o arfer gorau mewn manau eraill drwy rwydweithio â phaneli eraill ledled Cymru a Lloegr ac wedi tynnu sylw'r Comisiynydd at yr arferion hyn lle y bo'n briodol.

Ar nodyn personol, hwn fydd fy Adroddiad Blynyddol olaf fel Cadeirydd Panel yr Heddlu a Throseddu gan fy mod wedi penderfynu peidio â sefyll eto yn etholiadau'r Cyngor ym mis Mai 2022. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb y cefais y frant o weithio gyda hwy, yn ystod fy nghyfnod fel aelod o Banel yr Heddlu a Throseddu a chyn hynny fel aelod o Awdurdod yr Heddlu.



*Y Cyngorydd Alun Lloyd-Jones*

*(Cadeirydd y Panel)*

## **2. Aelodaeth y Panel**

Roedd cyfnod swydd y ddau aelod annibynnol/cyfetholedig o'r Panel wedi dod i ben ym mis Hydref 2021. Yn dilyn ymarfer recriwtio cyhoeddus a ddenodd ddiddordeb nid yn unig ar draws ardal yr heddlu, ond hefyd y tu hwnt, penodwyd yr Athro Ian Roffe a Mrs Helen Thomas i'r Panel am gyfnod pellach yn y swydd. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y Panel yn cadw o leiaf rywfaint o barhad ac arbenigedd ar ôl etholiadau'r awdurdodau lleol ym mis Mai 2022 a allai arwain at newid sylweddol ymhlith aelodau etholedig y Panel

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Aelodau'r Panel ar gyfer 2021-2022 yn Atodiad 1.

## **3. Ein swyddogaeth:**

Swyddogaethau Panel yr Heddlu a Throseddu yw;

1. Adolygu cynllun heddlu a throseddu'r Comisiynydd.

2. Adolygu cyllideb ddrafft flynyddol y Comisiynydd, a'r pŵer i roi fetó ar lefel y praesept.
3. Ymdrin â chwynion penodol ynghylch y Comisiynydd neu ei ddirprwy
4. Craffu ar benderfyniadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd.
5. Adolygu penodiad neu ddiswyddiad y Prif Gwnstabl a phenodiad rhai o staff uwch Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sef unrhyw Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a Phennaeth Staff y Comisiynydd a'r Prif Swyddog Ariannol.
6. Cynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol.
7. Llunio adroddiadau neu argymhellion i'r Comisiynydd.
8. Adolygu ymddygiad y Comisiynydd.

Dyma swyddogaethau statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

1. Pennu blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys.
2. Cyhoeddi Cynllun yr Heddlu a Throseddu.
3. Ymgysylltu â chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ynghylch materion plismona.
4. Gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol.
5. Cefnogi dioddefwyr a dwyn pobl gerbron y Llysoedd.
6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi pobl sy'n agored i niwed.
7. Penodi'r Prif Gwnstabl a'i ddiswyddo os bydd angen.
8. Ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl.
9. Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif
10. Pennu cyllideb flynyddol yr Heddlu a lefel y praesept.

**Nid oes gan y Panel, na Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, unrhyw rôl o reoli gwaith plismona gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw Plismona Gweithredol.**

#### **4. Adolygiad o'r Flwyddyn:**

Cynhaliodd y Panel 3 cyfarfod ffurfiol yn ystod y flwyddyn ynghyd ag un sesiwn frifio anffurfiol gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Cyfarfu is-grwpiau o aelodau'r panel ar wahân hefyd i ymgymryd â darnau gwaith manylach. Ceir rhagor o wybodaeth am gyfarfodydd ffurfiol y Panel ar wefan y Panel [www.panelheddluathroseddudp.cymru/](http://www.panelheddluathroseddudp.cymru/) drwy glicio ar y tab 'cyfarfodydd ', y botwm 'dewiswch' ac yna dewis blwyddyn y cyfarfod rydych am chwilio amdano.

##### Crynodeb o'r Cyfarfodydd

Gorffennaf 2021

Hwn oedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Panel. Roedd y cyfarfod wedi canolbwyntio ar bryderon am ansawdd cofnodi data troseddau gan Heddlu Dyfed-Powys, adroddiad blynyddol y Comisiynydd a chraffu ar ei berfformiad yn erbyn y Gorchymyn Protocol Plismona. Derbyniodd y Panel adroddiad hefyd gan un o'i is-grwpiau ar fater Plismona ac lechyd Meddwl a oedd yn cynnwys argymhellion i'r Comisiynydd.

Yn y prynhawn, yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, cafwyd gwrandawriad i gadarnhau penodi Richard Lewis yn Brif Gwnstabl newydd Dyfed-Powys

Tachwedd 2021

Roedd y cyfarfod hwn wedi canolbwyntio ar graffu ar Gynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd, dosbarthiad y cyllid grant gan y Comisiynydd a'i berfformiad yn erbyn y Protocol Plismona.

5 Chwefror 2022

Roedd y cyfarfod hwn wedi canolbwyntio ar bennu praesept yr heddlu am 2022-2023 a rheolaeth ariannol cyllideb y Comisiynydd.

### **Cwynion yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Rhaid i Banel yr Heddlu a Throseddu gofnodi unrhyw gŵyn yn erbyn y Comisiynydd sy'n dod i law. Fodd bynnag, dim ond pwerau cyfyngedig iawn sydd gan y Panel i ddelio â'r cwynion hyn ac ni all 'ymchwilio' i unrhyw gŵyn a wnaed. Mae'n ofynnol i'r Panel gyfeirio unrhyw gŵyn ddifrifol (h.y. cwyn am gamymddwyn troseddol) i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ac nid oes ganddo'r pŵer i orfodi'r Comisiynydd i gymryd unrhyw gamau adferol mewn perthynas â chwyn.

Yn ystod y flwyddyn, cofnododd y Panel un gŵyn gan y cyhoedd yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Ystyriwyd y gŵyn yn unol â phrotocol cwynion y Panel, a phenderfynwyd peidio â chymryd unrhyw gamau pellach gan nad oedd y mater yn addas i'w ystyried ymhellach gan y Panel ac nid oedd unrhyw ganlyniad ystyrlon yn debygol.

### **Blaenoriaethau'r Panel ar gyfer 2021-2022**

Yn ei adroddiad blynyddol diwethaf, nododd y Panel 3 blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ganlynol, yr oedd pob un ohonynt yn ymwneud â swyddogaeth statudol y Panel.

Felly, ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/2022 oedd:

BLAENORIAETH 1	YR AMCANION	YR HYN A WNAETHOM	CANLYNIAD
Craffu ar Braesept yr Heddlu	Sicrhau bod arian Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei reoli'n briodol a bod	Adolygu'r cyfrifon diwedd blwyddyn.	Daeth y Panel i'r casgliad bod lefel y praesept a gynigwyd gan y Comisiynydd ar gyfer

<p>(Bu is-grŵp o aelodau'r panel, o dan gadeiryddiaeth y Cyngorydd Keith Evans yn arwain y mater hwn)</p>	<p>Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys</p>	<p>Holi'r Comisiynydd am y cyfrifon hyn yn gyhoeddus.</p> <p>Cael sesiwn briffio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno.</p> <p>Derbyn gwybodaeth am y gwasanaethau nad ydynt yn rhai'r heddlu a gaffaelir gan y Comisiynydd.</p> <p>Derbyn gwybodaeth gan y Prif Gwnstabl am bwysau cyllidebol mewn Seminar Cyllid.</p> <p>Cynnal gwrandawriad i ystyried y praesept arfaethedig</p>	<p>2022-2023 yn briodol o ystyried yr holl amgylchiadau.</p> <p><b>Argymhellodd y Panel i'r Comisiynydd y dylai fwrw ymlaen â'r praesept hwnnw a chytunodd y Comisiynydd â'r argymhelliad hwnnw</b></p>
---	--	---	---

BLAENORIAETH 2	YR AMCANION	YR HYN A WNAETHOM	CANLYNIAD
<p>Plismona ac Iechyd Meddwl</p> <p>(Bu grŵp o aelodau'r panel dan gadeiryddiaeth Mrs Helen Thomas yn arwain ar y mater hwn)</p>	<p>Deall yr hyn y mae Cynllun yr Heddlu a Throseddu wedi'i ddweud am blismona ac iechyd meddwl, sut mae hyn wedi'i weithredu a'r effaith y mae wedi'i chael.</p>	<p>Gofyn i'r Comisiynydd ddarparu gwybodaeth benodol i'r Panel ynghylch y mater hwn.</p> <p>Gwahodd rhanddeiliaid allweddol eraill i roi eu barn i'r Panel.</p> <p>Chwilio am enghreifftiau o arfer gorau o fannau eraill.</p>	<p>Roeddem yn fodlon bod y dull a gymerwyd gan y Comisiynydd yn cynrychioli arfer gorau a bod hyn yn fodd i ddiogelu'r rhai sy'n agored i niwed yn ardal yr heddlu. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus bod yr Heddlu'n gorfod ymgymryd â thasgau fel mater o drefn a ddylai gael eu cyflawni'n fwy priodol gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ac felly aethom ati i gynnig argymhellion</p>

			gyda'r nod o geisio lleihau'r baich hwn.
--	--	--	--

BLAENORIAETH 3	YR AMCANION	YR HYN FYDDWN YN EI WNEUD	CANLYNIAD
Ymgysylltu â'r cyhoedd  (Bu is-bwyllgor dan Gadeiryddiaeth y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones yn arwain ar y mater hwn)	Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Panel, a gwella ymgysylltiad y cyhoedd â'r gwaith hwnnw.	Hyrwyddo gwaith y Panel ymhellach drwy we-ddarlledu a gwneud defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol.  Cymryd camau pellach i ymgysylltu â'r rhannau hynny o'r cyhoedd nad ydynt yn gallu neu nad ydynt yn dymuno ymgysylltu ar-lein drwy ddefnyddio papurau newyddion lleol.  Ymgysylltu'n benodol â grwpiau lleiafrifol.	Roedd pandemig y Coronafeirws wedi parhau i amharu ar y gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, roedd y cyfarfodydd yn cael eu gweddarlledu ac roedd y cyhoedd unwaith eto'n gallu mynychu'r cyfarfodydd yn bersonol os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Cyflwynodd sawl aelod o'r cyhoedd ymholiadau i'r Panel drwy'r wefan yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, roedd y Panel wedi:

- Cefnogi'r Comisiynydd i ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer Dyfed-Powys
- Parhau i graffu ar y modd y gwnaeth y Comisiynydd ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif.
- Craffu ar yr holl benderfyniadau allweddol a wnaed gan y Comisiynydd gan gynnwys y rheini yn ymwneud â gwasanaethau a gomisiynir.
- Ymateb i Adolygiad y Swyddfa Gartref o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau â rhanddeiliaid
- Ymateb i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ynghylch newidiadau i'r Gorchymyn Protocol Plismona, sy'n rheoli'r berthynas rhwng y Swyddfa Gartref, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabiliaid

## 5. EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER 2022/2023

Mae'r Panel wedi penderfynu, o ystyried y newid tebygol yn aelodaeth y Panel yn dilyn etholiadau'r Cyngor ym mis Mai 2022, y dylai ganolbwyntio ar swyddogaethau craidd y Panel o ran ei flaenoriaethau

Felly, ein blaenoriaethau ar gyfer 2022-2023 fydd:

BLAENORIAETH 1	YR AMCANION	YR HYN FYDDWN YN EI WNEUD	CANLYNIAD BWRIADEDIG
Craffu ar Braesept yr Heddlu	Sicrhau bod cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei reoli'n briodol a bod Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys	Adolygu'r cyfrifon diwedd blwyddyn.  Holi'r Comisiynydd am y cyfrifon hyn yn gyhoeddus.  Cael sesiwn briffio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno.  Derbyn gwybodaeth am y gwasanaethau nad ydynt yn rhai'r heddlu a gaffaelir gan y Comisiynydd.  Derbyn gwybodaeth gan y Prif Gwnstabl am bwysau cyllidebol mewn Seminar Cyllid.  Cynnal gwrandawriad i ystyried y praesept arfaethedig	Bod lefel y praesept a osodir ar gyfer 2023-2024 yn briodol o ystyried yr holl amgylchiadau.

BLAENORIAETH 2	YR AMCANION	YR HYN FYDDWN YN EI WNEUD	CANLYNIAD BWRIADEDIG
Sut y mae'r Comisiynydd yn rheoli ystâd yr Heddlu yn sgil y pwysau ariannol ar y gyllideb gyfalaf	Deall sut y caiff ystâd yr heddlu ei rheoli ac effaith hyn ar effeithlonrwydd ac	Gofyn i'r Comisiynydd ddarparu gwybodaeth benodol i'r Panel ynghylch y mater hwn.	Bod yn fodlon bod y dull a gymerwyd gan y Comisiynydd yn cynrychioli arfer gorau



	<p>effeithiolrwydd yr heddlu</p> <p>Ystyried a yw'r rhaglen gyfalaf yn cynrychioli'r gwerth gorau</p>	<p>Gwahodd rhanddeiliaid allweddol eraill i roi eu barn i'r Panel.</p> <p>Chwilio am enghreifftiau o arfer gorau o fannau eraill.</p>	<p>ac yn hyrwyddo heddlu effeithlon ac effeithiol</p>
--	---	---	---

<b>BLAENORIAETH 3</b>	<b>YR AMCANION</b>	<b>YR HYN FYDDWN YN EI WNEUD</b>	<b>CANLYNIADAU BWRIADEDIG</b>
<p>Craffu ar y modd y mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif</p>	<p>Sicrhau bod y Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif mewn ffordd sy'n drylwyr, yn effeithiol ac yn deg.</p>	<p>Monitro perfformiad y Comisiynydd drwy fynychu cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu</p> <p>Adolygu a chraffu ar agendâu ac adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno i Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu</p> <p>Herio'r Comisiynydd mewn perthynas â materion penodol sy'n codi yn ystod y flwyddyn.</p>	<p>Bod tystiolaeth glir bod y Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif mewn ffordd gadarn ond teg.</p>

<b>BLAENORIAETH 4</b>	<b>YR AMCANION</b>	<b>YR HYN FYDDWN YN EI WNEUD</b>	<b>CANLYNIADAU BWRIADEDIG</b>
<p>Craffu ar berfformiad y Comisiynydd yn erbyn y Gorchymyn Protocol Plismona</p>	<p>Sicrhau bod y Comisiynydd yn cyflawni'r swyddogaethau statudol a ragnodir yn y Gorchymyn i'r safon uchaf posibl</p>	<p>Monitro perfformiad y Comisiynydd yn erbyn y gorchymyn bob chwarter</p> <p>Herio'r Comisiynydd mewn perthynas ag unrhyw faterion perfformiad penodol sy'n codi yn ystod y flwyddyn.</p>	<p>Bod tystiolaeth glir bod y Comisiynydd yn cyflawni ei swyddogaethau i'r safon uchaf posibl</p>

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, bydd y Panel yn.

- Craffu ar yr holl benderfyniadau allweddol a wneir gan y Comisiynydd gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â gwasanaethau a gomisiynir.
- Sicrhau bod Aelodau newydd y Panel yn derbyn hyfforddiant sefydlu cynhwysfawr yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022

Yn ogystal â'r uchod, bydd aelodau newydd y Panel yn cael eu gwahodd i ystyried ymgymryd â darn ychwanegol o waith craffu ar rôl y Comisiynydd mewn perthynas â chwynion yr Heddlu. Ysgogwyd hyn yn dilyn cais gan aelod o'r cyhoedd.

## **6. CASGLIAD**

Fel y dywedais yn fy nghyflwyniad, hon yw fy mlwyddyn olaf fel aelod a chadeirydd Panel yr Heddlu a Throseddu ac mae'n nodi diwedd cyfnod hir a phleserus iawn gyda'r heddlu. Dechreuodd y cyfan i mi yn gynnar yn y 1970au fel cwnstabl arbennig yng Ngogledd Cymru ac yna parhau fel aelod o hen Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys rhwng 2006 a 2012 ac wedi hynny fel aelod o Banel yr Heddlu a Throseddu, y 5 mlynedd a hanner diwethaf fel Cadeirydd.

Rhaid imi gloi drwy ddiolch eto i bawb yr wyf wedi cael y pleser o weithio gyda hwy yn ystod fy nghyfnod ar y Panel ac rwy'n dymuno pob llwyddiant a hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

*Y Cyngorydd Alun Lloyd-Jones*

(Cadeirydd)

**ATODIAD 1 - AELODAU PANEL YR HEDDLU A THROSEDDU**

**AELODAU PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS AR GYFER 2021 I 2022**

ENW	CYNGOR	
Y Cynghorydd John Prosser	SIR GAERFYRDDIN	
Y Cynghorydd Ken Howell	SIR GAERFYRDDIN	
Y Cynghorydd Jim Jones	SIR GAERFYRDDIN	
Y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones	CEREDIGION	
Y Cynghorydd Keith Evans	CEREDIGION	

<p>Y Cynghorydd Lloyd Edwards</p>	<p>CEREDIGION</p>	
<p>Y Cynghorydd David Evans</p>	<p>POWYS</p>	
<p>Y Cynghorydd Les George</p>	<p>POWYS</p>	
<p>Y Cynghorydd William Powell</p>	<p>POWYS</p>	
<p>Y Cynghorydd Michael James</p>	<p>SIR BENFRO</p>	
<p>Y Cynghorydd Robert Summons</p>	<p>SIR BENFRO</p>	

<p>Y Cyngorydd Stephen Joseph</p>	<p>SIR BENFRO</p>	
<p>IAN ROFFE</p>	<p>AELOD CYFETHOLEDIG</p>	
<p>HELEN THOMAS</p>	<p>AELOD CYFETHOLEDIG</p>	

